Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Syr John Rhys
# Ponterwyd
# Aberystwyth
# Ceredigion
# SY23 3JX

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 02/07/2015**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gymunedol Syr John Rhys ym mhentref Ponterwyd yng Ngheredigion. Mae 20 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, mewn dau ddosbarth oed cymysg. Daw 17% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Mae tua 48% yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol wedi dynodi 25% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes yr un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Mai 2011 ac mae'n gofalu am ddwy ysgol gyfagos yn ychwanegol i'w swydd yn Ysgol Syr John Rhys. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Ionawr 2010.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Syr John Rhys yn 2014-2015 yw £6,539. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yng Ngheredigion yw £8,697 a'r lleiafswm yw £3,038. Mae Ysgol Syr John Rhys yn y pedwerydd safle o'r 51 ysgol gynradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn dda oherwydd:

- Bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- Bod medrau llythrennedd a rhifedd llawer o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus
- Bod ansawdd yr addysgu yn effeithiol
- Bod disgyblion ar draws yr ysgol yn ymddwyn yn dda ac yn awyddus i ddysgu
- Bod yr ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus gyda rhieni i wella safonau a lles disgyblion
- Bod darpariaeth effeithiol yn bodoli i hyrwyddo lles ac ethos cynhwysol a chroesawgar lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- Bod gan y pennaeth weledigaeth strategol glir sy'n cael ei rhannu'n effeithiol gydag aelodau cymuned yr ysgol
- Bod y pennaeth wedi sefydlu strwythur rheolaeth fuddiol sy'n rhannu cyfrifoldebau yn llwyddiannus
- Bod yr ysgol yn gwneud y defnydd gorau o arbenigedd y staff
- Bod arweinwyr yn cyfleu disgwyliadau uchel ar gyfer sicrhau gwelliant
- Bod gan arweinwyr ddealltwriaeth gywir o gryfderau a gwendidau'r ysgol
- Bod cyswllt agos yn bodoli rhwng canfyddiadau'r weithdrefn hunan arfarnu a'r cynllun gwella, sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau gwelliant yn effeithiol
- Bod yr ysgol yn cynnig gwerth da am arian

## Argymhellion

A1 Gwella medrau trafod disgyblion cyfnod allweddol 2.

A2 Datblygu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio a chymhwyso eu medrau cyfathrebu ar lefel briodol ar draws y cwricwlwm

A3 Datblygu strwythurau pendant ar gyfer cynnwys llais y disgybl, y rhieni a'r gymuned ehangach yn y broses hunan arfarnu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ar fynediad i'r ysgol, mae medrau sylfaenol llawer y disgyblion islaw'r hyn a ddisgwylir. Fodd bynnag, mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau llafar yn dda iawn ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa yn llwyddiannus mewn sefyllfaoedd amrywiol. Maent yn ymateb yn fyrlymus i gwestiynau athrawon ac yn cyfrannu'n werthfawr i drafodaethau o fewn y dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu ar lafar yn gadarn yn y Gymraeg ac yn datblygu ystod briodol o eirfa bynciol. Fodd bynnag, nid yw eu gallu i gynnal trafodaethau ehangach wedi datblygu'n ddigonol. Mae medrau llafar Saesneg y rhan fwyaf yn datblygu'n briodol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau darllen yn effeithiol. Wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd, mae llawer yn defnyddio strategaethau effeithiol i gywain gwybodaeth yn annibynnol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn darllen yn rhugl ac yn hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Maent yn darllen gyda mynegiant ac yn medru disgrifio cynnwys eu llyfrau yn dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen yn y Gymraeg yn briodol. Maent yn darllen yn gymharol rugl ac yn llwyddo i amrywio goslef y llais yn llwyddiannus gan ddangos dealltwriaeth briodol o'r testun. Mae llawer ohonynt yn darllen yn fwy hyderus yn y Saesneg ac yn medru trafod cynnwys y llyfrau yn dda.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob disgybl yn ysgrifennu'n annibynnol gan amrywio'u brawddegau a defnyddio atalnodi sylfaenol yn gywir. Maent yn ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau ac at wahanol gynulleidfaoedd yn llwyddiannus, er enghraifft, wrth ysgrifennu disgrifiad o daith yr ymfudwyr ar long Y Mimosa i Batagonia. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus. Maent yn medru ysgrifennu at wahanol bwrpas a chynulleidfaoedd yn briodol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae sillafu ac atalnodi y rhan fwyaf yn gadarn. Maent yn defnyddio paragraffau'n llwyddiannus i drefnu eu gwaith ac yn drafftio a gwella darnau yn fedrus. Mae safon llawysgrifen a chyflwyniad gwaith rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn.

Mae medrau gwrando rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn dda. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn cyfrannu'n dda i drafodaethau ac yn defnyddio'u medrau meddwl yn llwyddiannus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn cyfrannu'n briodol i drafodaethau dosbarth ond nid ydynt mor hyderus i fynegi barn mewn grwpiau llai. Mae medrau meddwl llawer o'r disgyblion yn datblygu'n gadarn.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda ar draws y meysydd dysgu. Maent yn medru mesur cynhwysedd a hyd drwy ddefnyddio unedau safonol a phwyntiau degol yn llwyddiannus a chasglu a chofnodi gwybodaeth mewn ffurf graff bar. Er enghraifft, mesur hyd mwydod ac yna cofnodi'r canlyniadau mewn ffurf graff bar trwy ddefnyddio medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn medru defnyddio'u medrau rhifedd yn gadarn mewn pynciau eraill ac yn cymhwyso'u dealltwriaeth i ddatrys problemau yn llwyddiannus. Gallant gofnodi data yn gadarn gan ddefnyddio gwahanol graffiau i gofnodi data ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio geirfa briodol yn ddiogel i ddehongli nodweddion setiau data.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn ac mae'r disgyblion o allu uwch yn cyflawni'n dda yn y Cyfnod Sylfaen. Nid oes gwahaniaeth nodedig rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o'u cymharu â'u cyfoedion, nac ychwaith rhwng perfformiad bechgyn o gymharu â merched.

Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gan yr ysgol yn aml. O ganlyniad, nid yw'r data yn ddibynadwy a gall effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnod yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o dair blynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) o'i gymharu ag ysgolion tebyg wedi amrywio rhwng yr 25% uchaf a'r 25% isaf mewn datblygiad llythrennedd a datblygiad rhifedd. Fodd bynnag, mae perfformiad ar y deilliant uwch (deilliant 6) wedi amrywio rhwng yr 50% uwch a'r 25% isaf ar gyfer datblygiad llythrennedd. Mae wedi bod yn gyson yn y 25% isaf ar gyfer datblygiad mathemategol.

Yng nghyfnod allweddol 2, yn gyffredinol mae perfformiad yr ysgol ar y lefel 4 ddisgwyliedig wedi bod yn y 25% uchaf dros y pedair blynedd ddiwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Fodd bynnag, mae perfformiad yr ysgol wedi amrywio rhwng yr 50% is a'r 25% isaf mewn Cymraeg dros yr un cyfnod. Mae perfformiad yr ysgol mewn Cymraeg, Saesneg , mathemateg a gwyddoniaeth ar y lefel uwch (lefel 5) wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor neu i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt. Maent yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac ar amseroedd eraill yn ystod y dydd, ac yn ymateb yn gwrtais i'w gilydd ac i oedolion.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn falch o'u hysgol ac maent yn manteisio ar gyfleoedd priodol i fynegi barn drwy eu cyfraniad i weithgareddau'r cyngor ysgol. Maent yn gwneud penderfyniadau sy'n cael effaith gadarnhaol ar les eu cyd-ddisgyblion. Er enghraifft, y cyngor ysgol oedd yn gyfrifol am godi arian i brynu offer chwarae i'r buarth, a rhedeg y siop ffrwythau. Mae'r ddwy fenter hon wedi cyfrannu'n effeithiol at ddealltwriaeth gadarn y disgyblion am bwysigrwydd cadw'n heini a bwyta ac yfed yn iach.

Mae’r disgyblion yn cyfrannu’n werthfawr at waith elusennol drwy godi arian a chymryd rhan mewn digwyddiadau cymdeithasol yn y gymuned. Mae hyn yn datblygu eu medrau cymdeithasol a’u medrau bywyd yn effeithiol.

Mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg, mae presenoldeb y disgyblion yn y 25% uchaf dros gyfnod o dair blynedd. Mae hon yn nodwedd gref. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau ysgogol i’w disgyblion, sy’n ymateb yn llawn i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae’r athrawon yn darparu amrywiaeth o brofiadau diddorol sy’n ennyn diddordeb a chwilfrydedd y rhan fwyaf o’r disgyblion. Maent yn sicrhau bod y profiadau dysgu yn adeiladu’n llwyddiannus ar eu profiadau blaenorol drwy’r ysgol.

Rhoddir sylw priodol i ran fwyaf o ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn eu cynlluniau gwaith. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer sicrhau bod disgyblion o bob oed yn caffael medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol ac yn arwain at safonau cyflawniad da. Mae gweithgareddau mentergarwch, sy’n cynnwys plannu, tyfu ac yna gwerthu llysiau yn cyfrannu’n arwyddocaol at ddatblygiad medrau rhifedd disgyblion drwy’r ysgol.

Darperir amrywiaeth dda o gyfleoedd ar gyfer datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddathliadau, hanes a diwylliant Cymru. Mae ymweliadau gan artistiaid lleol fel Wyn Melville Jones a chan feirdd gwadd fel Eurig Salisbury, yn atgyfnerthu gwybodaeth y disgyblion o’u hunaniaeth a’u hymglymiad i’w hardal leol.

Mae gwersi, ymweliadau addysgol ac arferion ailgylchu’r ysgol yn cyfrannu’n dda tuag at gynyddu dealltwriaeth a gwerthoedd disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu: Da**

Mae perthynas waith gadarn yn bodoli rhwng yr oedolion a’r disgyblion ar draws yr ysgol. Mae’r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o ddulliau addysgu sy’n sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni’n dda ac yn datblygu medrau dysgu annibynnol yn llwyddiannus. Mae’r athrawon yn holi’n fedrus ac yn cyfeirio at yr hyn mae disgyblion eisoes yn ei wybod er mwyn ymestyn eu dealltwriaeth a chodi eu safonau. Mewn ychydig iawn o achosion, gwelir diffyg cyfleoedd i ymestyn medrau llafar y disgyblion mewn trafodaethau grŵp.

Mae gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o’r cwricwlwm ac maent yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu medrau’r disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r holl staff yn modelu iaith safonol yn dda ac mae hyn yn cyfrannu'n briodol at gryfhau iaith lafar y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio'n dda ac mae gwaith disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd.  Mae sylwadau'r athrawon yn cynnig adborth adeiladol ar gyfer y disgyblion.  Yn y rhan fwyaf o achosion, nodir yn glir beth y mae disgyblion wedi'i gyflawni'n dda a'r hyn sydd angen iddyn nhw ei wneud er mwyn gwella.  Defnyddir y dull marcio hwn yn effeithiol gan yr athrawon i osod targedau personol ar gyfer gwelliant.  Mae'r disgyblion yn ymateb yn briodol i'r sylwadau a'r targedau er mwyn gwella'u gwaith.  Maent yn dechrau cyfrannu'n effeithiol at y broses o asesu gwaith eu hunain a'u cyfoedion ar gyfer sicrhau gwelliant.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau llwyddiannus ar gyfer asesu, monitro a chofnodi cynnydd disgyblion.  Mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o brofion safonol a data olrhain cynnydd.  O ganlyniad, mae gan staff wybodaeth dda ar gyfer blaenoriaethu cefnogaeth briodol ar gyfer disgyblion, gan gynnwys yr ychydig sy'n tangyflawni.  Mae hyn yn gwella'r ddarpariaeth ar eu cyfer.

Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth werthfawr am gynnydd eu plant ac mae'r adroddiadau blynyddol yn ymateb yn llawn i'r gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion yn llwyddiannus drwy'r gwersi chwaraeon a chlybiau fel y clwb rhedeg.  Rhoddir bri ar sicrhau bod pob unigolyn yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach.  Mae cyfleoedd da i ddisgyblion dderbyn cyfrifoldebau drwy eu gwaith gyda'r cyngor ysgol a'r cyngor eco drwy ystod o weithgareddau gyda'r gymuned.  Mae gweithdrefnau a pholisïau'r ysgol yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn cael eu cynnal yn drwyadl.  Trwy sicrhau cyfleoedd i'r disgyblion gymryd rhan mewn gwasanaethau arbennig mewn capeli lleol a'r eglwys leol, mae'r ysgol yn annog datblygiad ysbrydol y disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o wybodaeth ac arweiniad asiantaethau arbenigol allanol i gefnogi disgyblion.  Mae cysylltiadau gwerthfawr rhwng yr ysgol ac amrywiaeth o asiantaethau allanol fel yr heddlu a'r gwasanaeth iechyd yn cynyddu ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd cadw'n iach a diogel.

Mae'r ysgol yn adnabod anghenion addysgol disgyblion yn fuan ac yn darparu cymorth llwyddiannus ar eu cyfer.  Mae'r disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn derbyn sylw da mewn grwpiau ymyrraeth ac yn y dosbarthiadau.  Mae'r disgyblion, ar y cyd â'r athrawon a'r staff cymorth, yn llunio eu cynlluniau addysgol unigol.  Caiff y rhain eu rhannu gyda'r rhieni er mwyn sicrhau cydweithrediad llwyddiannus rhwng yr ysgol a'r cartref.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos yr ysgol yn gartrefol a chynhwysol sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal i bob disgybl.  Mae'r ysgol yn gymuned glos a chroesawgar lle mae'r disgyblion a'r athrawon yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd.  Mae amgylchedd dysgu ysgogol ynghyd â'r arddangosfeydd deniadol, yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn llwyddiannus.

Mae polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau'r ysgol yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol yn gadarn.

Mae gan yr ysgol gyflenwad helaeth o adnoddau o ansawdd da sy'n cyfoethogi dysgu'r disgyblion yn dda. Mae'r bartneriaeth lwyddiannus â'r rhieni wedi helpu'r ysgol i greu ardal allanol o ansawdd uchel sy'n cael effaith werthfawr ar safonau a lles disgyblion. Er enghraifft, trwy brosiect mentergarwch mae disgyblion yn plannu amrywiaeth helaeth o lysiau a ffrwythau gan gynnwys bananas a grawnwin. Mae'r holl safle yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth strategol glir sy'n cael ei rhannu'n effeithiol gydag aelodau cymuned yr ysgol. Mae'r pennaeth wedi sefydlu strwythur rheolaeth buddiol sy'n rhannu cyfrifoldebau yn llwyddiannus. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn gwneud y defnydd gorau o arbenigedd y staff i wireddu'r nodau, cynlluniau a chyfrifoldebau strategol yn llwyddiannus.

Mae'r arweinwyr yn cyfleu disgwyliadau uchel ar gyfer sicrhau gwelliant ac maent yn herio staff yn gadarnhaol ac effeithiol. Trwy arweinyddiaeth fedrus y pennaeth, mae'r ysgol yn cyd-gynllunio ar gyfer gwella yn effeithiol ag ysgolion eraill y ffederasiwn. Maent wedi mynd i'r afael â nifer o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth a safonau. Er enghraifft, mae'r cydlynydd llythrennedd a rhifedd wedi datblygu defnydd da o TGCh er mwyn codi safonau'r Gymraeg.

Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn dda ac yn ymwybodol o'i blaenoriaethau. Mae adroddiadau trwyadl y pennaeth yn sicrhau bod ganddynt wybodaeth berthnasol am berfformiad yr ysgol er mwyn herio'n briodol i fynd i'r afael ag unrhyw danberfformio. Mae'r cydlynwyr ac arweinwyr yn cydweithio'n briodol â'r llywodraethwyr i fonitro safonau ac ansawdd y ddarpariaeth. Maent wedi dechrau monitro gwersi, craffu ar lyfrau a thrafod gwaith gyda'r disgyblion yn briodol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gywir o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Maent yn gwneud defnydd da o weithdrefnau hunan arfarnu effeithiol sy'n cynnwys arfarnu a monitro data ac ansawdd yr addysg yn rheolaidd. Mae arweinwyr a chydlynwyr yn gwneud defnydd effeithiol o dystiolaeth uniongyrchol ar ansawdd yr addysgu i fonitro cyflawniad yn y pynciau craidd ac ym medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion. Mae'r weithdrefn hunan arfarnu yn rhoi ystyriaeth addas i farn disgyblion, rhieni a'r gymuned ehangach ar agweddau o fywyd yr ysgol.

Mae cyswllt agos yn bodoli rhwng canfyddiadau'r weithdrefn hunan arfarnu a'r blaenoriaethau a nodir yng nghynllun gwella ysgol. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys targedau heriol sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau'r ysgol yn llwyddiannus. Mae'n cynnwys meini prawf llwyddo clir i fesur cynnydd, graddfeydd amser a chostau. Mae gan bob aelod staff rôl bwrpasol a phenodol mewn gweithredu agweddau o'r cynllun.

Mae arweinwyr yn gwerthuso cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun yn rheolaidd ac yn ystyried hynny wrth ffurfio cynllun gwella'r flwyddyn ddilynol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid defnyddiol i gefnogi lles a chyflawniad ei disgyblion. Mae partneriaeth effeithiol yn bodoli rhwng y rhieni â'r ysgol. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi'r ymdeimlad cryf o bartneriaeth sydd wedi'i meithrin rhwng y cartref a'r ysgol sy'n eu galluogi i gyfrannu'n llawn at gefnogi addysg eu plant.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau effeithiol gyda'r ddwy ysgol arall o fewn y ffederasiwn o dair ysgol. Mae hyn yn cael effaith lwyddiannus ar godi safonau disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw'r cydweithio i godi safonau rhifedd a llythrennedd. Mae'r bartneriaeth hefyd yn effeithiol wrth gyd-gynllunio rhaglenni gwaith sy'n cael effaith gadarnhaol ar bob un o ddisgyblion yr ysgol. Mae'r tair ysgol yn cydweithio'n effeithiol i safoni a chymedroli asesiadau athrawon. O ganlyniad, mae gan yr athrawon well ymwybyddiaeth o lefelau a safonau gwaith disgyblion.

Mae partneriaethau priodol yn bodoli rhwng yr ysgol a nifer o asiantaethau'r awdurdod lleol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad lles a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae cysylltiadau cryf yn bodoli â'r gymuned leol, gydag aelodau o'r gymdeithas yn ymweld â'r ysgol i rannu profiadau a chynnal gweithgareddau gyda'r disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw'r clwb garddio a chlybiau chwaraeon niferus.

Mae'r cysylltiadau agos gyda'r cylch Ti a Fi lleol yn sicrhau bod y plant yn ymgartrefu'n hwylus wrth gychwyn yn yr ysgol. Mae'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo i'r ysgol uwchradd yn effeithiol gan baratoi'r disgyblion Blwyddyn 6 yn llwyddiannus ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol gyflenwad digonol o athrawon a chymorthyddion dosbarth i ymdrin â phob agwedd o'r cwricwlwm. Mae aelodau staff yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd ac yn cefnogi'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r bartneriaeth sy'n bodoli rhwng y tair ysgol o fewn y ffederasiwn yn galluogi'r ysgol i rannu adnoddau ac arbenigedd y staff yn effeithlon. Defnyddia'r athrawon eu cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu yn effeithiol i godi safonau.

Mae'r prosesau trwyadl ar gyfer rheoli perfformiad yr holl staff yn arwain at bennu targedau gwerthfawr sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau gwella'r ysgol a'u datblygiad proffesiynol. Mae hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae holl staff yr ysgol yn elwa o'r hyfforddiant sy'n deillio o'r trefniadau rheoli perfformiad hyn. Er enghraifft, mae'r cymorthyddion dosbarth wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ddatblygu medrau darllen cynnar sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau darllen yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol o fewn cymunedau dysgu proffesiynol, sy'n cyfrannu'n dda at gyfoethogi darpariaeth yr ysgol. Enghraifft dda yw'r cydweithio i godi safonau gwyddoniaeth trwy dynnu ar wybodaeth bynciol athrawon o fewn y bartneriaeth.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli'r cyllid yn ofalus. Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Defnyddir y grant amddifadedd disgyblion yn effeithiol ar gyfer gwella medrau llythrennedd a rhifedd grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau personol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithlon o adnoddau trwy weithio fel ffederasiwn tair ysgol. Mae hyn wedi cyfrannu'n dda at y safonau cadarn mae'r disgyblion yn eu cyflawni. O ganlyniad, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian

## Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 ar gyfer yr ysgol hon. Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod. http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Arolwg cynradd (pob disgybl)

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

### Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | response s Nifer o | Agree Cytuno'n | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | disagree Anghytun | know Ddim yn | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 16 | 11<br>69% | 5<br>31% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 16 | 13<br>81% | 3<br>19% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 16 | 13<br>81% | 3<br>19% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 72% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 16 | 12<br>75% | 4<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 16 | 9<br>56% | 4<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 3 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 46% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 16 | 11<br>69% | 5<br>31% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 16 | 13<br>81% | 3<br>19% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 16 | 10<br>62% | 5<br>31% | 1<br>6% | 0<br>0% | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 16 | 10<br>62% | 6<br>38% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 16 | 12<br>75% | 4<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 16 | 12<br>75% | 4<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |

| | response s Nifer o | Agree Cytuno'n | Agree Cytuno | Disagree Anghytun o | disagree Anghytun | know Ddim yn | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 15 | 11 73% | 4 27% | 0 0% | 0 0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 16 | 12 75% | 4 25% | 0 0% | 0 0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 16 | 13 81% | 3 19% | 0 0% | 0 0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 16 | 11 69% | 5 31% | 0 0% | 0 0% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 45% | 38% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 16 | 12 75% | 4 25% | 0 0% | 0 0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 13 | 7 54% | 5 38% | 0 0% | 0 0% | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 43% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 16 | 13 81% | 3 19% | 0 0% | 0 0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 16 | 11 69% | 5 31% | 0 0% | 0 0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mr Kevin Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Mr Gareth Sion Lloyd Owen | Arolygydd Cymheiriaid |
| Joyce George (Pennaeth) | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.